

# TELEGOFAL

## BETH YW TEC?

Galluogi Gofal drwy dechnoleg yw'r defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn darparu gwasanaethau iechyd a gofal i bobl yn eu cartrefi eu hun, gan gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel. Enghraifft o hyn yw cael 'lifeline' sef botwm y gellir ei wasgu i alw am gymorth caiff ei wisgo fel pendant.

## TELEGOFAL YNG NGHEREDIGION

Mae ein dull o sicrhau cefnogaeth i'r person yn y canol yn ymwneud â gweithio gyda phawb mewn cylch o gefnogaeth – teulu a ffrindiau, gweithwyr cefnogi, cyd-weithwyr Gofal Integredig Cymunedol a Swyddogion Iechyd Proffesiynol – er mwyn sicrhau y gweithredir y camau gorau i fynd i'r afael â'r sefyllfa.

## SUT MAE HYN YN GWEITHIO?

Bydd Telegofal yn eich cysylltu â chanolfan fonitro os bydd unrhyw beth yn mynd o chwith. Yn syml iawn bydd gwasgu'r botwm ar eich pendant neu'r uned ymateb yn eich cysylltu yn uniongyrchol â'n tîm cyfeillgar. Byddant yn medru siarad â chi drwy'r uchelseinydd ar yr uned. Mae'n bosib i chi hefyd gael cyfarpar sy'n gweithredu'r larwm yn awtomatig os nad yw'n bosib i chi wneud hynny eich hun.
Bydd y tîm yn gweithredu ar unwaith i'ch cynorthwyo, 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn. Gall hyn gynnwys cysylltu ag aelod o'r teulu, gofalwr neu'r gwasanaethau brys. Mae hyn yn golygu y gall cwsmeriaid ar draws Ceredigion deimlo'n hyderus, yn ddiogel ac yn hapus yn eu cartrefi.

## EITEMAU CYNORTHWYOL / OFFER TELEGOFAL ERAILL

Gall Telegofal yng Ngheredigion fod yn fwy na gwasgu larwm. Mae'n bosib y bydd gan rai bobl anghenion penodol iawn lle y gall offer arall sy'n gweithio ar y cyd â'r uned larwm fedru bod yn ddefnyddiol iawn. Bydd yr Hwb Clyfar yn cysylltu ag ystod eang o synwyryddion o amgylch y cartref gan gysylltu'n uniongyrchol â'r ganolfan fonitro. Enghreifftiau o hyn bydd gwres, carbon monocsid, datgelu cwymp, drws a thân a mwg.

## FAINT Y MAE TELEGOFAL CEREDIGION YN EI GOSTIO?

### TELEGOFAL SYFLAENOL

£50 – UN TALIAD AR GYFER GOSOD Y CYFARPAR YNA

£ 4.10 YR WYTHNOS

### PECYN TECHNOLEG CYNORTHWYOL

£50 – UN TALIAD AR GYFER GOSOD Y CYFARPAR YNA

£ 7.60 YR WYTHNOS

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Ebost:**
**Telecare@ceredigion.gov.uk**

**Ffon 01545570881**